# Y farchnad laeth organig

Yn ystod gwanwyn 2001/02 bu'n rhaid i ffermwyr cynnyrch llaeth organig ledled y DU wynebu sefyllfa o orgyflenwi, sefyllfa a arweiniodd at gwymp ym mhrisiau llaeth gyda 37 y cant o laeth organig yn cael ei werthu i'r farchnad gonfensiynol. Fodd bynnag, mae cyfanswm cynhyrchiad blynyddol llaeth organig yn y DU wedi sefydlogi a galw'r defnyddwyr am gynhyrchion llaeth organig yn cynyddu, felly go brin y bydd hi'n hir cyn unionir yr 'anghydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw', gan arwain o bosibl at gynnydd yn y pris a delir am laeth organig yn y dyfodol.

- Rhwng 1998 a 2003 cynyddodd nifer y ffermydd llaeth organig yng Nghymru o 30 i 140.
- Gwerthodd cynhyrchwyr Cymru oddeutu 36 miliwn litr o laeth organig yn ystod 2002/03 o'i gymharu â 10 miliwn litr yn 2000/01.
- Mae iogwrt yn cyfrif am 40 y cant o werthiant cynnyrch llaeth organig yng Nghymru, ffigwr sy'n gyson â gwerthiant cynnyrch llaeth organig ar draws y DU yn gyffredinol.
- Yn 2001/02 roedd gwerthiant caws organig yn cyfrif am 13 y cant o werthiant cynhyrchion llaeth organig o'i gymharu â 28 y cant o'r farchnad laeth anorganig.

## Heriau sy'n wynebu'r sector llaeth organig

- O fis Awst 2005 mae'n bosibl y bydd gofyn i gynhyrchwyr llaeth organig ymorol am ddietau organig 100 y cant wrth i'r diraddio ar borthiant organig ddod i ben. Amcangyfrifir y bydd cynnydd o £55 y dunnell ym mhris porthiant gan ychwanegu 1.4c y litr i'r gost o gynhyrchu. Mae'n bur debyg y bydd hyn yn annog ffermwyr i gynhyrchu llaeth o borthiant anifeiliaid gan ddibynnu llai ar ddwysfwydydd, a gall hyn arwain at fwy o fuchesi lloia gwanwyn a chyflenwad o laeth organig tymhorol. O ganlyniad, mae perygl y bydd llaeth organig yn cael ei fewnforio i ymdopi â diffygion y gaeaf. Mae angen i ffermwyr a grwpiau llaeth gynllunio ymlaen llaw i osgoi'r posibilrwydd hwn.

## Cyfleoedd marchnata i gynhyrchwyr llaeth organig

- **Marchnad hylif ar raddfa fawr**
- Gall **archfarchnadoedd** gynnig marchnad i gynhyrchwyr am fwy o gynnyrch na'r rhan fwyaf o fusnesau eraill. Mae cynhyrchwyr cydweithredol a grwpiau marchnata yn elwa o arbedion maint a gallant gydlynu'r cyflenwad. Mae cydweithrediad o'r math hwn yn galluogi cynhyrchwyr i ddod yn fwy cystadleuol wrth gyflenwi i amrywiol adwerthwyr.
- Tyfodd **gwerthiant uniongyrchol** yn gynt nag unrhyw fusnes adwerthu arall yn ystod 2003/04. Mae cyfleoedd marchnata uniongyrchol yn galluogi cynhyrchwyr i ffurfio perthynas â phrynwyr a chael pris teg am y cynnyrch a werthir. O blith y cyfleoedd marchnata hyn y mae cynlluniau blwch, marchnadoedd ffermwyr, gwerthu ar y rhyngrwyd, a siopau fferm. Mae cynhyrchion llaeth â gwerth uchel iddynt megis caws yn hynod o addas ar gyfer mentrau marchnata bychain, gwahanol.
- **Tai bwyta ac arlwywyr**– Dengys ymchwil yr hoffai 44 y cant o'r cyhoedd weld dewis organig ar y fwydlen wrth fwyta allan. O ganlyniad, mae'r farchnad arlwyo yn cynnig cyfleoedd adwerthu gwych i gynhyrchwyr a phroseswyr organig.
- **Siopau lleol** – Pur anaml y gwelir llaeth organig yn y siopau lleol ar waetha'r ffaith mai cynnyrch ffres yw llaeth sydd fel arfer yn cael ei brynu yn ddyddiol yn hytrach nag yn wythnosol. Mae sicrhau cytundebau â



*Cyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AL. Ffôn. 01970 622248*
*Organic Centre Wales and its partners cannot accept any responsibility for the consequences of any actions taken on the basis of its factsheets or other publications.*

siopau lleol yn arbennig o bwysig wrth geisio cynyddu gwerthiant llaeth organig y tu allan i ganolfannau trefol.

⇨ **Pwrcasu Cyhoeddus** – Dengys ymchwil yr hoffai 70 y cant o'r boblogaeth weld bwyd organig neu fwyd a gynhyrchir yn lleol mewn ysgolion. O ganlyniad, mae Awdurdodau Lleol, ysgolion a llywodraethau yn dechrau ystyried cael gafael ar fwyd ffres, lleol ac organig i'w ddefnyddio yn y sector cyhoeddus. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyflenwi i'r sector cyhoeddus, cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru isod.

## Argymhellion

⇨ **Prosesu ar y fferm -** Mae cynhyrchwyr sy'n prosesu eu llaeth eu hunain, naill ai'n unigol neu fel rhan o grŵp lleol yn dueddol o wneud mwy o elw na chynhyrchwyr sy'n dibynnu ar y farchnad hylif graddfa fawr. Er enghraifft, mae Trioni/Three Farms Dairy wedi llwyddo i gynhyrchu a marchnata ei llaeth ffres a chyflas i gartrefi ac ysgolion ledled Cymru a'r DU. Am ragor o wybodaeth gweler taflen gyfarwyddiadau'r *Soil Association* ynghylch prosesu ar y fferm.

⇨ **Labelu Rhanbarthol/grŵp–** Dengys ymchwil y byddai 80 y cant o ddefnyddwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o brynu cynhyrchion organig a gynhyrchir yng Nghymru, felly mae'r potensial i gynhyrchwyr llaeth fanteisio ar yr enw da presennol sydd gan Gymru am gynhyrchion da byw uchel eu safon yn anferthol. Argymhellir y dylai cynhyrchion sy'n cael eu marchnata y tu allan i Gymru gael eu nodi'n glir fel rhai Prydeinig, yn bennaf oll. Serch hynny, ar gyfer cynnyrch sy'n cael ei farchnata o fewn Cymru, mae labelu a nodi'r arbenigrwydd Cymreig yn bwysig. Gall dalwyr trwyddedau *Soil Association Certification Ltd*. ddefnyddio amrywiaeth o labeli rhad ac am ddim, yn seiliedig ar faneri, i hyrwyddo tarddiad Prydeinig/cenedlaethol/rhanbarthol eu cynnyrch. Am ragor o wybodaeth ar farchnata cynnyrch i'r defnyddiwr Cymreig, gweler *'Organic food: Understanding the consumer and increasing sales'* sydd ar gael o Ganolfan Organig Cymru.

⇨ **Cydweithrediad cynhyrchwyr** – Y prif rwystr o hyd i ddatblygiad yw dosbarthu mewn ardaloedd isel eu poblogaeth. Gall cydweithrediad rhwng cynhyrchwyr sicrhau sefydlogrwydd prisiau a chyfaint a gwell mynediad i farchnadoedd. Yn ogystal, gall cynhyrchwyr rannu llafur, offer a sgiliau. Er enghraifft, bydd Calon Wen yn dosbarthu ei gynnyrch ar y cyd â *Rachel's Organic Dairy* a *Cambrian Organic* yn ystod 2004/05 i leihau costau logistaidd a milltiroedd bwyd tra'n ehangu'r amrywiaeth o gynnyrch organig sydd ar gael i'r defnyddiwr.

## Am ragor o wybodaeth

| | |
|---|---|
| **Calon Wen Organic Milk Co-operative**<br>Roger Kerr - 01952 812636 Roger@calonwen-cymru.com | Cwmni cydweithredol cynhyrchwyr llaeth cwbl Gymreig |
| **Marchnadoedd Ffermwyr** – 0845 600 8692<br>Info@farmersmarketsinwales.co.uk www.farmersmarketsinwales.co.uk | I ddod o hyd i'ch marchnad ffermwyr agosaf a sut i gyfrannu. |
| **Food Centre Wales** – 01559 362230<br>www.foodcentrewales.org.uk | Gall Canolfannau Bwyd gynnig cymorth i gynhyrchwyr a phroseswyr ynglŷn â datblygu cynnych, a chyngor ynglŷn ag arallgyfeirio ar y fferm a sefydlu busnesau newydd. |
| **Canolfan Technoleg Bwyd** – 01248 370125<br>www.foodtech-llangefni.co.uk | |
| **OMSCo** – 01934 750244<br>www.omsco.co.uk/frameset.cfm | Cwmni cydweithredol Cyflenwyr Llaeth Organig<br>Menter gydweithredol o oddeutu 300 o ffermwyr Prydain |
| **Canolfan Organig Cymru –** 01970 622248<br>www.organic.aber.ac.uk/markets<br>organic@aber.ac.uk | Adroddiadau manwl ynghylch y sector llaeth organig Cymreig, bwletinau gwybodaeth misol rhad ac am ddim ynghylch y farchnad a chyngor ynghylch cyflenwi i'r sector cyhoeddus |
| **Soil Association -** 0117 914 2400<br>info@soilassociation.org<br>www.soilassociation.org | Cyngor ar gynhyrchu a phrosesu gan gynnwys taflen gyfarwyddiadau ar brosesu ac adwerthu ar y fferm, ffeithlen gwybodaeth marchnata i ffermwyr organig a ffeithlen gwybodaeth marchnata i dyfwyr organig. |
| **Trioni Ltd** – 01239 682572<br>Threefarmsmilk@hotmail.com | Grŵp cynhyrchu/marchnata sy'n cynhyrchu a marchnata llaeth ffres a chyflas ledled Cymru a'r DU. |
| **Canolfan Cydweithredol Cymru Cyf** – 029 2055 4955<br>Walescoop@walescoop.com<br>www.walescoop.com | Cyngor ar sut i ffurfio/ymuno â grwpiau marchnata ac mae'n darparu ystod o wasanaethau datblygu a hyfforddi ar gyfer mentrau cydweithredol. |
| **Welsh Development Agency - Bwrdd Datblygu Cymru**<br>Enquiries: 08457 775577 or Jonathan Parker: 02920 368 251<br>Jonathan.parker@wda.co.uk | Mae'r WDA yn darparu cefnogaeth i gynhyrchwyr a phroseswyr organig trwy grantiau, mentrau hybu, *Farming Connect* a gweithgareddau datblygu masnach. |
| **X-Change Wales -** 0845 644 8484<br>www.xchangewales.co.uk/xchangewales.aspx | Gwefan pwrcasu cenedlaethol newydd yw X-Change Wales. Gall cyflenwyr organig ddefnyddio'r wefan i farchnata cynhyrchion a gwasanaethau i brynwyr o'r sector cyhoeddus Cymreig. |